# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 13/07/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Catrin Roberts | Alaw Llewelyn Roberts |
| Gito Williams | Caren Jones | Rhys Llewelyn | Sharon Williams | Lleucu Jones |
| Janice Evans | Mared Llywelyn Williams | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Cais Rees Jones, Carys Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Catrin Roberts – Unrhyw fater brys – Tir Cae Coch
   Rhys Tudur – Unrhyw fater brys – Cais am nawdd - Prosiect Cwmni Tebot
   Mared Llywelyn Williams – Unrhyw fater brys – Cais am nawdd - Prosiect Cwmni Tebot

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 08/06/2021
   Cafwyd cais i newid geiriad brawddeg yn eitem rhif 14 ac mae'r clerc am ei newid.
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Gruffydd Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Cais am nawdd –** Cwmni Tebot

   Cafwyd cais gan Cwmni Tebot am nawdd i ariannu Prosiect sydd ganddynt yn cefnogi artistiaid i greu gwaith newydd a ffurfio cysylltiadau gydag artistiaid drwy Gymru a Gwlad y Basg. Maent wedi anfon Galwad Agored am bump artist o unrhyw ddisgybliaeth celfyddydol i archwilio'r thema 'Pererindod' ac yn cynnig comisiwn o £800 i bob artist greu eu gwaith dros yr Haf. Mae'r prosiect yma wedi derbyn grant Cysylltu a Ffynnu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Maent wedi cyrraedd rhestr fer erbyn hyn ond oherwydd safon uchel y gwaith maent yn teimlo y dylent gomisiynu mwy na 5 cais ac felly yn gofyn os wnaiff CTN ystyried ariannu un neu fwy, neu ran o'r ceisiadau. Mae tri cais cryf gan artistiaid o Lŷn ac fe fyddai cyfraniad ariannol gan CTN yn eu galluogi i'w comisiynu.
   Penderfyniad: penderfynwyd yn unfrydol i roi cyfraniad o £800 tuag at y prosiect.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Sharon Williams
   - **Diffyg ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd** – Cyngor Cymuned Llandygai

   Derbyniwyd ebost gan Cyngor Cymuned Llandygai yn datgan eu bod yn awyddus iawn i drefnu cyfarfod hefo Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drafod eu pryderon ynglŷn â'r diffyg ymateb a chyfathrebu gan Gyngor Gwynedd a'u bod yn siomedig iawn yn safon y gwasanaeth y mae Cyngor Gwynedd yn ei ddarparu. Maent wedi estyn allan at gynghorau cymuned/tref eraill o fewn Wynedd i weld os ydynt hwy hefyd yn cael yr un problemau ac hefo diddordeb mewn mynychu cyfarfod o'r fath.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Cyngor Cymuned Llandygai i ddatgan ein cefnogaeth i'w safbwynt nhw gan fod safon y gwasanaeth mae CTN yn ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn siomedig iawn.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

- **Ymateb y Llywodraeth i lythyr CTN yn galw ar y Llywodraeth i weithredu argymhelliad 11 o adroddiad Simon Brooks yn ardal CTN -** Cadeirydd

Cafwyd ymateb gan Julie James i lythyr a anfonwyd iddi gan CTN nôl ym mis Ebrill ynglŷn â treialu argymhelliad 11 o adroddiad Simon Brooks yn ardal CTN ac mae hanner addewid y bydd y Llywodraeth yn ystyried ardal CTN i beilota'r cynllun yma ac yn gofyn os fedrith CTN fod o gymorth i'r Llywodraeth i gael partneriaid ynghŷd a chefnogaeth yr ardal. Mae'r cadeirydd wedi drafftio llythyr i'w anfon i'r Llywodraeth fel ymateb i lythyr Julie James gan ei fod yn bwysig fod CTN yn gyrru ymateb ar fyrder ac mae'r clerc wedi ei anfon i bawb cyn y pwyllgor. Darllenwyd y llythyr allan gan y cadeirydd er mwyn cael eglurhad ohonno. Mae dau gynnig yma:

1. Ydi aelodau CTN yn hapus i yrru'r llythyr yma i'r Llywodraeth?
2. Ydi aelodau CTN yn hapus, os ydi'r Llywodraeth yn ei gweld yn briodol i lythyru Cynghorau Cymuned/Tref eraill o fewn Dwyfor i beilota ar y cyd hefo CTN?

Penderfyniad: pasiwyd y ddau gynnig yn unfrydol gyda argymhelliad gan un o'r aelodau i ychwanegu ystadegau sy'n dangos canran siaradwyr Cymraeg yn Nwyfor a canran o gartrefi a werthwyd yn Nwyfor yn 2020-2021 fel ail gartrefi.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

- **Tir Cae Coch –** Dewi Parry Thomas

Derbyniwyd ebost gan Dewi Parry Thomas, sydd yn Saer Coed ac Ymgymerwr yn Morfa Nefyn, yn datgan ei fwriad i adeiladu gweithdy addas ar gyfer ei waith fel Ymgymerwr ar ddarn o dir ar Lôn Isaf Morfa Nefyn ger y Cyfleusterau Cyhoeddus. Mae Dewi Parry Thomas mewn trafodaethau gyda teulu Glandwr i brynnu darn o'r tir sydd yn gefn y safle hefyd ac yn gofyn i CTN os y gallant weld eu ffordd yn glir i werthu'r darn yma iddo er mwyn iddo allu bwrw mlaen hefo'r caniatad cynllunio ar gyfer y gweithdy newydd. Mae darn yma o'r tir wedi ei drosglwyddo i CTN tua pymtheg mlynedd yn ôl gan deulu Glandwr Morfa Nefyn er mwyn adeiladu lloches bws yna ond penderfynwyd adeiladu'r lloches bws mewn man arall ac felly nid oes dim defnydd i'r darn tir yma gan CTN mwyach.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i drosglwyddo'r darn tir yma yn ôl i deulu Glandwr er mwyn galluogi Dewi Parry Thomas i gario mlaen gyda'r caniatad cynllunio. Y clerc i gysylltu gyda Un Llais Cymru i gael arweiniad ar y mater ac os fydd unrhyw gost yn deillio o hyn yna Dewi Parry Thomas neu teulu Glandwr fydd yn ei dalu ac nid CTN.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

- **Arwyddion ar draeth Nefyn –** Gruffydd Williams

Mae'r aelod lleol wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod cychod hwylio yn cael eu gadael ar draeth Nefyn ar y tywod meddal yn y pen pellaf wrth y forglawdd. Mae hwn yn ardal lle mae teuluoedd yn gallu eistedd ar y traeth ac felly mae angen arwydd yno yn dweud 'Dim parcio cychod – ardal i deuluoedd yn unig / No parking of bloats – area for families only'. Hefyd derbyniodd gais gan y warden yn gofyn am arwydd 'Dim cŵn – No dogs' gan fod cŵn yn rhedeg yn rhydd ar y traeth ymhob man, ac hefyd un arwydd 'Dim parcio – No parking' gan fod ceir yn parcio

wrth y cwt glan y mor diwethaf ar hyd y traeth. Mynegodd un o'r aelodau fod llawer o bobol lleol yn mynd a'u cŵn ar hyd y traeth ac felly efallai y dylai'r geiriad ar yr arwydd ddweud 'Cŵn ar dennyn – Dogs on a lead' yn hytrach na 'Dim cŵn – No dogs'.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Designer Signs i gael 'proofs' o'r arwyddion a'u gyrru i'r aelodau i'w cymeradwyo a'u archebu sef:
Un arwydd 'Dim parcio cychod – ardal i deuluoedd yn unig / No parking of bloats – area for families only' ar y tywod meddal ym mhen pellaf y traeth wrth y forglawdd.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
Tri arwydd 'Cŵn ar dennyn – Dogs on a lead' a un arwydd 'Dim parcio – No parking'.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gito Williams

- **Parc y Ddol –** Lleucu Jones

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf mae Lleucu Jones wedi cysylltu gyda'r ysgolion lleol ynglŷn â problem sbwriel a malurio yn Nefyn ac mae Ysgol Edern yn awyddus iawn i gyd weithio o fis Medi ymlaen i geisio datrys y broblem felly efallai y byddai modd trefnu ymgyrch hel sbwriel pan fydd y cyfyngiadau wedi cael eu llacio yn nes at fis Hydref. Nid oedd Ysgol Morfa yn awyddus i gymeryd rhan ond gan mai Ysgol Babanod ydi Ysgol Morfa mae'r plant yn llai ac ddim mewn oed i fynd allan heb eu rhieni ac mae Ysgol Nefyn am roi'r mater ar yr agenda mis Medi. Mae hi wedi cysylltu hefo Ysgol Botwnnog a Glan y Mor hefyd ond ddim wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. Bu parti mawr ym Mharc y Ddol nos Sadwrn gyda llanast difrifol yna bora Sul sef caniau cwrw, poteli cwrw, bwyd a 'cigarettes' ac mae Lleucu Jones eisiau gwybod os oes posibl iddi gysylltu gyda'r heddlu lleol/PCSO i wneud rhywbeth am y peth. Mae'r criw oedd yno nos Sadwrn yn bobol ifanc nid plant ac os ydi'r pobol ifanc yma yno yn yfed drwy'r nos yna fe fydd rhywbeth siwr o ddigwydd.
Penderfyniad: Lleucu Jones i gysylltu gyda'r heddlu lleol/PCSO i geisio datrys y broblem.
Cynnig: Lleucu Jones Eilio: Arfon Hughes

- **Cyfraniad ariannol i Ddathliad y GIG –** Catrin Roberts

Diolchodd y cadeirydd i Catrin Roberts am drefnu'r digwyddiad ar y 5ed o Orffennaf yn Eglwys Santes Fair Morfa Nefyn ac mae canmol mawr wedi bod i sut oedd y dathliad wedi cael ei drefnu. Gofyn am nawdd ariannol mae Catrin Roberts i dalu nôl costau'r diwrnod sef rhodd ariannol i aelodau Band Pres Pwllheli am gymeryd rhan ac arian yn ôl am y cacennau a'r te. Casglwyd swm o £250.00 i'r GIG ar y diwrnod ac fe fydd yr arian yma yn cael ei dalu mewn i gyfrif CTN a bydd siec o £250.00 yn cael ei anfon i'r GIG.
Penderfyniad: pasiwyd i roi siec o £80 i dalu nôl costau'r diwrnod.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Arfon Hughes

5. **Cynllun 'Prynu Cartref – Cymru' -** Diweddariad – Cadeirydd

Cynllun yw hwn gan y Llywodraeth sydd yn helpu pobol i brynnu tŷ. Maent yn ariannu 30% o 'equity' i bobol ifanc brynnu tŷ pan nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny ac mae'n gwbwl ddi log. Nid yw Cyngor Gwynedd yn gwneud defnydd llawn o'r cynllun yma a dim ond 5 gafodd ddefnydd ohonno y llynedd. Mae'n gynllun hollol ddi fai ac yn galluogi bobol ifanc i fynd fyny'r ysdol a prynnu tŷ. Cynnig yw hwn sydd yn rhoi fwy o bwyslais ar Cyngor Gwynedd i ddefnyddio'r Cynllun Prynu Cartref Cymru ym Mhen Llŷn sef defnyddio'r arian o'r treth premiwm ar ail gartrefi sydd wedi cael ei hel ym Mhen Llŷn yn yr ardal honno. Mae'r rhan helaeth o'r arian mae Cyngor Gwynedd wedi hel o'r treth premiwm ar ail gartrefi yn cael ei ddefnyddio i adeiladu stadau o dai ar gyrion

trefi megis Bangor a Chaernarfon ac o gysidro bod y rhan fwyaf o'r arian yma yn dod o ardaloedd ym Mhen Llŷn nid yw'n gwneud synwyr fod yr arian yma yn cael ei wario yn y trefi.
Penderfyniad: y cadeirydd i yrru llythyr i Cyngor Gwynedd yn dweud y buasai CTN yn hoffi gweld mwy o ddefnydd o'r Cynllun Prynu Cartref Cymru yn enwedig o ystyried eu bod yn cael gymaint o gyllid o'r ail gartrefi sydd yn ardal CTN a'i bod yn bwysig eu bod yn ail ddefnyddio'r arian yn yr ardal wledig yma i alluogi bobol ifanc leol i brynnu tai yma ac hefyd gofyn iddynt godi'r 30% i 50% i ardaloedd megis Abersoch a Morfa Nefyn gan fod prisiau tai tu hwnt o uchel yn yr ardaloedd yma.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Catrin Roberts

6. **Siopa Stryd Fawr: diffyg defnydd o'r Gymraeg –** Cynnig gan y Cadeirydd
Cynnig yw hwn i ddwyn sylw Cyngor Tref Pwllheli i'r ffaith fod arwyddeiriau 'tag lines' 'marketing lines', sydd yn denu pobol i'r siopa, ar sawl siop ym Mhwllheli yn uniaith saesneg. Mae'r cadeirydd wedi paratoi rhestr o'r siopa yma ac mae'n dangos fod 80%/90% o siopa Pwllheli heb yr un arwyddair Cymraeg. Y bwriad yw gyrru llythyr i CTP i ofyn am eu cefnogaeth i yrru llythyr i berchnogion y siopa a'i ddwyn i sylw'r wasg hefyd. Mae ymdrechion wedi eu gwneud ynglŷn â hyn yn y gorffennol gan aelodau CTP ond dim wedi dod ohonno ac mae gan Cyngor Gwynedd swyddog llawn amser sy'n delio hefo hyn.
Penderfyniad: y cadeirydd i anfon y rhestr a drafftio llythyr i berchnogion y siopa ymlaen i'r clerc a'r clerc i'w anfon ymlaen i'r aelodau a gwneud penderfyniad drwy ebost ar ôl i bawb eu darllen.

7. **Ymateb i greu Memorandwm o Ddealltwriaeth ynglŷn â Polisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd** – Diweddariad – Clerc
Yn dilyn y cyfarfod diwethaf fe yrrwyd ebost i holl glercod Cynghorau Cymuned a Thref drwy Wynedd yn dweud fod aelodau CTN yn awyddus i gynnal cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Polisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd ac i ofyn os oedd ganddynt diddordeb mewn mynychu cyfarfod o'r fath. Derbyniwyd ymateb gan 21 o Gynghorau Cymuned a Thref yn datgan diddordeb a darllenwyd rhestr ohonynt allan i'r aelodau. Mae'r clerc am anfon y rhestr i rhai o'r aelodau sydd wedi gofyn amdano er mwyn ceisio cysylltu hefo rhai o'r Cynghorau sydd heb ymateb hyd yn hyn ac yna symud ymlaen i drefnu cyfarfod ar zoom.
Penderfyniad: trefnu cyfarfod ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Awst a cyfyngu niferoedd i 2 aelod o bob Cyngor.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

8. **Llwybr Wern mewn cyflwr peryglus –** Clerc
Derbyniwyd cwyn gan aelodau o'r cyhoedd bod Llwybr Wern mewn cyflwr peryglus iawn. Mae'r llwybr wedi cael ei dorri ond mae'r gwellt wedi cael ei adael ar y llwybr ac yn cuddio'r tyllau sydd yn y ddaear ac mae dau o bobol wedi disgyn yno yn ddiweddar oherwydd hyn. Mae yna afon yn rhedeg wrth ymyl y llwybr hefyd ac oherwydd gordyfiant yn yr afon mae hi'n gorlifo ar draws y llwybr ac mae rhywun wedi rhoi cerrrig yn yr afon i drio atal y gorlifo ond mae'r cerrig yn dod ar draws y llwybr ac yn ei wneud yn llithrig iawn. Mae CTN wedi cyflawni eu dyletswyddau ar y llwybr yma sef cynnal a chadw'r llwybr a'r tir feddiannwr sydd yn gorfod gwneud yn siwr fod pobol yn gallu cerdded y llwybrau yn saff felly mae'n rhaid gofyn i Cyngor Gwynedd gysylltu hefo'r tir feddiannwr i sortio hyn allan.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i basio'r cwynion ymlaen.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Caren Jones

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

**9. Rhandiroedd y Ddôl –** Diweddariad

Mae'r Adran Eiddo wedi dod yn ôl at y clerc o'r diwedd ac wedi cael cyngor gan yr Adran Gyfreithiol ynglŷn â'r cytundeb sydd rhwng yr adran eiddo a CTN ar gyfer y Rhandiroedd. Mae'r Adran Gyfreithiol yn argymhell i CTN roi cytundeb unigol ar gyfer pob plot i warchod eu hunain ac nad oes ganddynt wrthwynebiad i CTN roi mwy nac un plot i'r un person.

Penderfyniad: Pasio'r gwybodaeth a dderbyniwyd ymlaen i'r Heliwr.

Cynnig: Rhys Tudur        Eilio: Sharon Williams

**10. Mynwent Morfa Nefyn – Estyniad i'r Fynwent –** Diweddariad

Mae'r clerc wedi cael ateb gan yr adran eiddo yn dweud fod 'compulsory purchase order' yn broses hir a chostus ond petai CTN eisiau cario mlaen hefo hyn y bysant yn gallu holi'r Adran Gyfreithiol i weld os y gallant wneud cais o'r fath ar ran CTN a beth fyddai'r ffi am hyn. Hefyd byddai angen i CTN ddarparu rhagor o fanylion a chynlluniau am yr hyn sydd ganddynt dan sylw.

Penderfyniad: Cysylltu nôl hefo Cyngor Gwynedd a gofyn faint fysa'r gost.

Cynnig: Rhys Tudur        Eilio: Gruffydd Williams

Penderfynwyd hefyd i gael cyfarfod safle hefo aelodau is-bwyllgor mynwentydd a rhai o'r aelodau eraill i greu cynllun i'w anfon i Cyngor Gwynedd.

Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Rhys Tudur

**11. Diffibs Hen CTN** – Clerc

Gan fod CTN wedi prynnu 3 diffib newydd mae angen gwneud penderfyniad beth i wneud gyda'r hen rai. Mae'r Gwasanaeth Ambiwlans wedi eu trosglwydd i ofal y clerc am y tro nes fydd penderfyniad wedi ei wneud a'r opsiynnau sydd ar gael yw eu rhoi fel rhodd i gartref henoed neu eu rhoi i'r Gwasnaeth Ambiwlans ar gyfer hyfforddiant. Maent yn dal i weithio ar hyn o bryd ond mae'r gost o brynnu padiau a batris iddynt reit uchel.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans i ofyn am rhywbeth ar bapur yn dweud ei fod yn iawn i CTN eu rhoi fel rhodd i gartref henoed. Unwaith bydd hyn wedi ei gael CTN i greu 'disclaimer' i'r cartrefi henoed bod y diffib yn cael ei drosglwyddo i'w gofal nhw, eu bod nhw yn gyfrifol am gynnal a chadw'r diffibs yn cynnwys unrhyw gost sy'n deillio o hynny a'r Matron i'w arwyddo. Y clerc i anfon ebost i bawb ar ôl cysylltu gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans i gael awgrymiadau o gartrefi henoed priodol i'w derbyn.

Cynnig: Gruffydd Williams          Eilio: Arfon Hughes

**12. Tendar Mynwent Nefyn**

Gyrrwyd briff o'r gwaith disgwyledig allan i'r sawl a gyflwynodd dendar i'r estyniad ym Mynwent Nefyn a derbyniwyd dau bris yn seiliedig ar y briff mewn amlenni seiliedig. Agorwyd yr amlenni yn y cyfarfod a darllenwyd y ddau allan i'r aelodau.

Penderfyniad: Pasiwyd yn unfrydol i gynnig y gwaith i Gareth Williams a'r clerc i greu cytundeb i'w arwyddo gan CTN a Gareth Williams cyn cychwyn y gwaith. Y clerc i drefnu Is-bwyllgor Mynwentydd ym Mynwent Nefyn i drafod ariannu'r gwaith.

Cynnig: Rhys Tudur        Eilio: Sharon Williams

**13. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Un Llais Cymru –** Bwletin Newyddion - Cyfarfodydd dan do

Derbyniwyd gohebiaeth gan Un Llais Cymru ynglŷn â cynnal cyfarfodydd dan do a'r rheolau cysylltiedig.
Penderfyniad: gan nad oes digon o le i gadw pellter yn Siop Siarad a'r cyfarfodydd yn gweithio yn iawn am zoom penderfynwyd i gario mlaen i ddefnyddio zoom ac eithrio'r rheol presenoldeb am 6 mis i unrhyw aelod sy'n methu ymuno ar zoom.
Cynnig: Rhys Tudur     Eilio: Sharon Williams

- **Cyngor Cymuned Pistyll –** Problemau Parcio Dros Nos
Cafwyd ebost gan Cyngor Cymuned Pistyll yn gofyn am gefnogaeth i'w cais i Cyngor Gwynedd yn gofyn am gyfarfod i drafod ac edrych ar y sefyllfa parcio dros nos ym maes parcio ym mhen Nant Gwrtheyrn gan 'campervans'.
Penderfyniad: pasiwyd i beidio cefnogi cais Cyngor Cymuned Pistyll.

**14. Ceisiadau Cynllunio**

**C21/0541/42/LL –** Tir ger Tŷ Hên, Lôn Cae Glas, Edern – Newid defnydd tir i leoli 9 carafan deithiol dymhorol, gwelliannau i fynedfa, tirlunio a gwaith cysylltiedig.
**Penderfyniad**: Gwrthod - y ffordd yn is-safonol ac annigonol i dderbyn yr holl lif ychwanegol o draffic fydd yn gysylltiedig hefo maes carafanau newydd, gwelededd annigonol ac amharu ar olygfeydd tai o gwmpas.
Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

Ceisiadau Diweddarach
**C21/0638/42/LL** – Cerniog Ganol, Mynydd Nefyn – Addasu ac adnewyddu adeilad allanol amaethyddol i stiwdio a gweithdy artist.
**Penderfyniad**: Gwrthod - gor-ddatblygiad i ddiben defnydd y cais sef stiwdio artist.
Cynnig: Rhys Tudur     Eilio: Caren Jones
**C21/0639/42/DT** – Cerniog Ganol, Mynydd Nefyn – Tynnu porth wydr a chodi estynaid unllawr 'lean-to' ochor.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams     Eilio: Gito Williams

**15. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £1051.09
- Catrin Roberts – Ad-daliad blodau Morfa - Tyddyn Sachau - £178.78
- Designer Signs – Arwydd 'Diolch' Nefyn - £60.00
- Colin Dobson Roofing Cyf. – Atgyweirio lander Llyfrgell Nefyn - £42.00
- Tyddyn Sachau – Blodau Edern - £330.68
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £28.18
- David M. Parry – trydydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £170.00 & taliad cyntaf mynwent Penniel - £135.00 = £305.00
- Gwynedd Roberts – llafur i osod y dair mainc wrth y Gof Golofn - £30.00
- Cliff Hughes – Taliad 3 cytundeb llwybrau - £1075.00 & gwaith ychwanegol - £257.00 = £1332.00
- E-On Next – Trydan Siop Siarad mis Mehefin - £100.62

- Gwilym Jones – Plannu blodau Morfa - £75.00
- Bacstal – Gwasanaeth Cyflogau - £125.40

Penderfyniad: Talu pob anfoneb

Cynnig: Caren Jones Eilio: Arfon Hughes

**16. Taliadau wedi eu derbyn:**

- D. P. Thomas – Angladd Eric Dobson - £950.00
- Ad-daliad cyfraniad i Capel Bethania, Pistyll - £1000.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737